Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

# Datganiad Newyddion

Cyhoeddwyd: 1 Mehefin 2007

**AROLWG O'R FFINIAU ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHASTELL-NEDD PORT TALBOT A PHOWYS**

Mae'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru (y Comisiwn) wedi cyhoeddi arolwg o ffiniau etholaethau seneddol Neath CC a Brecon and Radnorshire CC.

Mae Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) yn pennu gofyniad ar y Comisiwn i gadw dan arolwg cynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin ac i gyflwyno adroddiadau o'i argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Fe wnaeth Deddf Llywodraeth Cymru 1998 sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae Atodlen 1 (etholaethau'r Cynulliad a rhanbarthau etholiadol y Cynulliad) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal arolygon o etholaethau a rhanbarthau etholiadol y Cynulliad ar yr un pryd ag arolygon o etholaethau seneddol.

Bydd y Comisiwn yn llunio'i argymhellion dros dro ar gyfer etholaethau gan ddilyn y rheolau ar gyfer ailddosbarthu seddi a nodir yn Atodlen 2 i Ddeddf 1986. Ar yr un pryd, bydd y Comisiwn yn llunio hefyd ei argymhellion dros dro ar gyfer etholaethau a rhanbarthau etholiadol y Cynulliad gan ddilyn y rheolau a nodir yn Atodlen 1 Deddf 1998. Bydd hysbysiad am yr argymhellion hynny'n cael ei gyhoeddi mewn o leiaf un papur newydd sy'n cael ei ddosbarthu yn yr etholaethau yr effeithir arnynt, yn nodi lle gellir archwilio manylion yr argymhellion a ddangosir ar fap.

Gellir gwneud cynrychiolaethau cyn pen mis i gyhoeddi'r hysbysiad a bydd ymchwiliad lleol yn cael ei gynnal os derbynnir cynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r cynigion gan awdurdod lleol â diddordeb neu gan gorff o 100 neu fwy o etholwyr. Mae'r Comisiwn yn trefnu i Gomisiynydd Cynorthwyol i gynnal yr ymchwiliad.

Bydd y Comisiynydd Cynorthwyol yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn, a gall benderfynu cyhoeddi cynigion diwygiedig gan ddilyn yr un drefn, ond nid oes rhwymedigaeth arno i gynnal ymchwiliad pellach. Os yw'r Comisiwn yn penderfynu addasu ei argymhellion diwygiedig cyn cyflwyno'i gynigion terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, ailadroddir y drefn ar gyfer cyhoeddi a gwahodd cynrychiolaethau eto.

Mae'n ddyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno adroddiad y Comisiwn gerbron y Senedd ynghyd â Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor yn rhoi grym i'r argymhellion gydag addasiadau neu hebddynt. Caiff y Gorchymyn drafft ei gyflwyno i ddau Dŷ'r Senedd i'w gymeradwyo, ac, wedi iddo gael ei wneud, mae'r etholaethau newydd yn digwydd yn yr etholiad cyffredinol nesaf.

Tŷ Caradog 1-6 Plas Sant Andreas Caerdydd CF10 3BE
Caradog House 1-6 St. Andrews Place Cardiff CF10 3BE
☎ 029 20395031 Ffacs/Fax 029 20395250
e-mail/e-bost bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk
Web Site/Gwefan www.bcomm-wales.gov.uk www.comffin-cymru.gov.uk
Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau teleffon naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg
The Commission welcomes correspondence and telephone calls either in English or Welsh

**CYSYLLTIADAU**

Gellir cysylltu â'r Comisiwn yn y cyfeiriad canlynol:-


Mr Edward Lewis
Ysgrifennydd, Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas St Andrew
Caerdydd, CF10 3BE

Ffôn: 029 2039 5031
Ffacs: 029 2039 5250
E-bost: comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk